Hawdd ei Ddeall

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cwestiynau Cyffredin am y Gronfa Ymateb Brys

**Canllaw i rai o'r cwestiynau sydd gennych am ein Cronfa Ymateb Brys a sut i wneud cais**




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall **'COVID-19: Cefnogaeth i Unigolion drwy'r Gronfa Ymateb Brys, Cwestiynau Cyffredin'.**

**Ebrill 2020**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae’r geiriau a beth maen nhw’n feddwl yn hawdd i’w darllen a’u deall.



Efallai y byddwch angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rhywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn ysgrifen glas trwm yn anodd i’w deall. Mae beth maen nhw’n feddwl wedi’i ysgrifennu mewn blwch o dan y gair.




Os ydy’r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Mae beth mae’r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 26**.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:



**E-bost:** grantiau@celf.cymru

Mae’r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....2**

**Cronfa Ymateb Brys.....6**

Beth ydy'r grant a phwy sydd yn ei gael?.....6

Am faint o arian rydych chi'n gallu gwneud cais?.....7

Pryd rydw i'n gallu gwneud cais?.....8

Pwy sydd yn gallu gwneud cais?.....8

Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?.....9

Am beth rydych chi'n gallu gwneud cais?.....10

Am beth dydych chi ddim yn gallu gwneud cais?.....11

Ydy mwy nag 1 person sydd yn byw yn yr un tŷ yn gallu gwneud cais?.....11

Beth os ydw i'n gweithio mewn siopau, bwyd neu swyddi cefnogi eraill yn y celfyddydau?.....12

**Gweud cais.....12**

Sut ydw i'n gwneud cais?.....12

Sut rydw i'n dangos bod gen i broblemau arian oherwydd Coronafeirw.....12

Sut mae'r arian yma yn effeithio ar fy Nghredyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill?.....14

Oes angen imi ddweud wrthych chi sut rydw i'n gwario'r arian yma?.....14

Ydw i angen cyllid cyfatebol?.....15

Ydw i'n gallu cael help i lenwi'r ffurflen gais?.....15

Ydw i'n gallu cael arian am y costau ychwanegol rydw i'n eu wynebu oherwydd anabledd?.....15

Pa brawf mae angen imi ei roi i chi am fy nghyfrif banc ?.....16

Ydw i'n gallu mynd yn ôl at fy ffurflen gais ar-lein ar unrhyw amser?.....17

**Am y Gronfa Ymateb Brys** .......... **17**

Faint o arian sydd yn y Gronfa Ymateb Brys? .......... 17

O lle mae'r arian yma wedi dod? .......... 18

**Gwneud ein penderfyniad** .......... **19**

Sut fyddwch chi'n stopio llawer o bobl sydd ddim angen yr arian yma rhag gwneud cais? .......... 19

Oes yna rhywbeth penodol rydych chi'n chwilio amdano i'ch helpu chi i benderfynu pwy sydd yn cael arian? .......... 19

Pryd fydda i'n cael fy mhenderfyniad? .......... 20

Pryd fydda i'n cael yr arian? .......... 20

Fydd yna fwy o gyfleoedd i wneud cais am yr arian yma? .......... 20

Pam bod 2 gyfle i wneud cais? .......... 20

Ydw i'n gallu gwneud cais i'r Gronfa Sefydlogi os ydw i wedi cael arian o'r Gronfa Ymateb Brys? .......... 20

Faint o geisiadau fydd yn llwyddiannus? .......... 21

Ydych chi'n mynd i brintio enwau'r bobl sydd yn cael arian? .......... 21

**Gwybodaeth a chefnogaeth** .......... **21**

Sut rydw i'n gallu cael cefnogaeth pan rydw i'n cadw pellter cymdeithasol neu yn hunanynysu? .......... 21

Ydw i'n gallu siarad gyda rhywun sydd yn gweithio i'r Cyngor Celfyddydau? .......... 22

**Cyllid Loteri Arall** .......... **22**

Mae gen i Grant Prosiect y Loteri Cenedlaethol yn barod. Ydw i'n cael gwneud cais am yr arian yma? .......... 22

Pryd fydd Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol yn dechrau eto? .......... 23

**Geiriau anodd** .......... **24**

# Y Gronfa Ymateb Brys




## Beth ydy'r Grant a phwy sydd yn ei gael?

Arian ydy'r Gronfa Ymateb Brys i bobl sydd yn:



- Gweithio yn **llawrydd** yn y sector celfyddydau

> Mae **llawrydd** yn meddwl gweithio i chi eich hun neu yn hunangyflogedig. Efallai eich bod yn gwneud darnau bach o waith i gyrff fel gweithiwr **llawrydd**.



- Yn methu gwneud arian ar hyn o bryd oherwydd Coronafeirws.

Mae hyn yn gallu bod yn bobl fel:




- Person crefftau



- Person sydd yn ysgrifennu




- Dawnsiwr



- Cerddor



Arian brys ydy hwn i’w helpu nhw i dalu am y pethau maen nhw eu hangen i fyw.



Rydych chi’n gallu gwneud cais am yr arian yma dim ond os nad oes gennych chi ffordd arall o wneud arian ar yr amser yma.



Mae’n bwysig iawn ein bod ni yn gallu rhoi arian i’r bobl sydd ei angen fwyaf. Os oes gennych chi ffyrdd eaill o wneud digon o arian i’ch cefnogi chi drwy’r amser yma, **peidiwch â gwneud cais os gwelwch yn dda**.




Mae yna ffyrdd eraill y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gallu helpu. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma: https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/cyngor-celfyddydau-cymru-ymateb-i-coronafeirws-covid-19




Fe fyddwn ni hefyd yn cychwyn cronfa newydd, **Y Gronfa Sefydlogi** ym mis Ebrill 2020. Fe fydd hyn yn helpu pobl sydd yn gweithio yn y celfyddydau i fynd yn ôl i normal ar ôl y Coronafeirws.

## Am faint o arian rydych chi’n gallu gwneud cais?



Rydych chi’n gallu gwneud cais am hyd at £2,500.



Os oes gennych chi gostau ychwanegol oherwydd anabledd efallai eich bod yn gallu cael rhagor o arian. Ewch i **dudalen 15** i ddysgu rhagor am hyn.

## Pryd rydw i’n gallu gwneud cais?



Mae gennych chi 2 gyfle i wneud cais i’r **Gronfa Ymateb Brys**.




Mae’r cyfle cyntaf i wneud cais yn agor ar **14 Ebrill 2020** ac yn cau ar **20 Ebrill 2020**.





Mae’r ail gyfle i wneud cais yn agor ar **28 Ebrill 2020**. Ac yn cau ar **6 Mai 2020**.



# Pwy sydd yn gallu gwneud cais?

Rydych chi'n gallu gwneud cais i'r **Gronfa Ymateb Brys** os ydych chi'n gweithio yn y sector celfyddydau ac os:



- Rydych chi'n cael problemau arian oherwydd Coronafeirws.
- Rydych chi'n ennill o leiaf hanner eich arian o waith llawrydd.



- Mae dros hanner eich gwaith mewn math o ffurf gelfyddydol rydyn ni'n ei gefnogi.
- Rydych chi wedi cael swydd neu wedi bod yn rhan o waith yn y 3 blynedd diwethaf oedd wedi cael ei **gyllido'n gyhoeddus**.



Mae wedi cael ei **gyllido'n gyhoeddus** yn meddwl cael ei dalu gydag arian o'r cyhoedd. Mae'n gallu cael ei drefnu gan rhywun fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol.




- Rydych chi'n 18 oed neu drosodd.
- Rydych chi'n byw yng Nghymru.
- Mae gennych chi gyfrif banc yn y DU yn eich enw chi.



# Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?

Dydych chi ddim yn gallu gwneud cais os:



- Mae gennych chi ffyrdd eraill o wneud neu o gael arian



- Rydych chi wedi cael eich **rhoi ar seibiant**

> **Rhoi ar seibiant** ydy pan rydych chi a'ch cyflogwr yn cytuno eich bod yn cymryd amser i ffwrdd oherwydd nad ydych chi'n gallu gwneud unrhyw waith. Rydych chi'n parhau i gael y rhan fwyaf o'ch cyflog.



- Rydych chi'n fyfyriwr llawn amser



- Rydych chi'n gweithio mewn addysg

- Rydych chi dan 18 oed



- Dydych chi ddim yn gweithio'n llawrydd.

## Am beth rydych chi'n gallu gwneud cais?



Rydych chi'n gallu gwneud cais am arian i dalu am:

- pethau pwysig ar gyfer bywyd bob dydd rydych chi eu hangen nawr



- pethau rydych chi eu hangen i barhau i wneud eich gwaith celf a gwneud eich gwaith
- yr amser rydych chi ei angen i feddwl a gwneud cynllun am eich dyfodol.

## Am beth dydych chi ddim yn gallu gwneud cais?



Dydy'r arian yma ddim yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer:

- gwaith prosiect newydd



- ffioedd hyfforddi myfyrwyr a chostau astudio eraill



- pobl sydd ddim yn gwneud o leiaf hanner eu gwaith yn llawrydd.

## Ydy mwy nag 1 person sydd yn byw yn yr un tŷ yn gallu gwneud cais?



Ydy. Rydyn ni'n gwybod eich bod chi efallai yn gweithio yn llawrydd yn y celfyddydau ac yn byw gyda phobl sydd yn gwneud yr un fath. Ond mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr:




- eich bod yn ateb y rheolau ar gyfer gwneud cais i'r Gronfa Ymateb Brys




- **a** bod gennych chi eich cyfrif banc eich hun.

Rydych chi'n gallu gwneud cais dim ond am arian sydd yn talu am eich costau personol eich hun.

## Beth os ydw i'n gweithio mewn siopau, bwyd neu swyddi cefnogi eraill yn y celfyddydau?




Edrychwch i weld cynlluniau eraill Llywodraeth y DU sydd yn gallu eich helpu. Edrychwch ar **dudalen 13** am fanylion.

# Gwneud cais

## Sut rydw i'n gwneud cais?




Llanwch y ffurflen gais ar-lein. Mae ar gael yma: [https://arts.wales/cy/cronfa-ymateb-brys-i-unigolion#start](https://arts.wales/cy/cronfa-ymateb-brys-i-unigolion#start). Os nad ydych chi yn gallu cael y ffurflen ar-lein e-bostiwch: [grantiau@celf.cymru](mailto:grantiau@celf.cymru)




Anfonwch eich CV neu lythyr cefnogi gyda'r ffurflen gais. Os gwelwch yn dda darllenwch **'Arian i gefnogi pobl sydd yn gweithio yn y celfyddydau yn ystod Coronafeirws'** am ragor o wybodaeth am hyn.


## Sut rydwi'n dangos bod gen i broblemau arian oherwydd Coronafeirws?



Dim ond dweud wrthyn ni am unrhyw arian rydych chi wedi ei golli oherwydd Coronafeirws.  Mae hyn yn cynnwys arian roeddech chi'n feddwl y byddech chi'n ei gael.





Mae angen i chi ddweud wrthyn ni os ydych chi wedi ceisio cael arian a chefnogaeth o leoedd eraill. Ac esbonio pam nad oeddech chi'n gallu defnyddio neu gael y gefnogaeth honno.




Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddangos prawf eich bod wedi ceisio cael arian a chefnogaeth o rhywle arall. Cadwch gofnod rhag ofn. Er enghraifft, e-bost neu ffurflenni cais.

**Ffyrdd eraill o gael arian a chefnogaeth rydyn ni'n disgwyl i chi chwilio amdanyn nhw:**



Mae'n bwysig iawn bod yr arian o'r **Gronfa Ymateb Brys** yn mynd i bobl sydd **ei angen fwyaf.**



Os oes gennych chi ffyrdd eraill o gael arian a chefnogaeth ar yr amser yma, peidiwch os gwelwch yn dda â gwneud cais i'r Gronfa Ymateb Brys.



Dyma ffyrdd eraill o gael cefnogaeth:

- **Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig Llywodraeth y DU**
- **Cynllun Cadw Swydd (seibiant) Llywodraeth y DU**
- Budd-daliadau fel **Credyd Cynhwysol a Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth (ESA)**
- **Cronfa Gwytnwch Economaidd gan Busnes Cymru.**

HM Revenue & Customs

## Sut mae'r arian yma yn effeithio ar fy Nghredyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill?

Dydyn ni ddim yn gwybod a dydyn ni ddim yn gallu rhoi cyngor i chi am hyn. Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda **Refeniw a Thollau EM** am gyngor:


**Gwefan:** www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs

**Ffôn:** 0800 024 1222



## Oes angen imi ddweud wrthych chi sut rydwi'n gwario'r arian?

Na, dim ond dweud wrthyn ni pam eich bod chi angen yr arian. A faint rydych chi ei angen.



## Ydw i angen cyllid cyfatebol?

Na, dydych chi ddim angen unrhyw gyllid cyfatebol.



## Ydw i'n gallu cael help i lenwi'r ffurflen gais?

Os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol rydych chi'n gallu cysylltu gyda'n tîm grantiau a gwybodaeth yn grants@arts.wales

# Ydw i’n gallu cael arian am y costau ychwanegol rydw i’n eu wynebu oherwydd anabledd?



Rydych chi’n gallu gwneud cais am hyd at £2,500.




Rydych chi’n gallu gwneud cais am arian **ychwanegol**, hyd at £2000, os oes gennych chi gostau eraill oherwydd anabledd. Er enghraifft:



- Cefnogaeth gofal personol yn y cartref



- Help gyda thrafnidiaeth



- **Eiriolydd** – person sydd yn gallu siarad ar eich rhan a’ch helpu i gael dweud eich dweud.




- Cefnogaeth cyfathrebu fel dehonglwr Iaith Arwyddion Prydeinig, meddalwedd arbennig ar gyfer eich cyfrifiadur neu wybodaeth hawdd ei ddeall.

# Pa brawf sydd angen imi ei roi i chi am fy nghyfrif banc?



Rhaid i chi roi prawf inni sydd yn dangos:

- bod y cyfrif yn eich enw chi



- rhif a chod didoli'r cyfrif



- bod cyfeiriad ar eich cyfrif banc yng Nghymru.


Mae angen i'r prawf fod yn:





- llai na 2 flynedd oed




- rhywbeth swyddogol gan y banc. Er enghraifft llun o'ch cerdyn banc sydd yn dangos enw, rhif a chod didoli'r cyfrif. Neu lythyr neu e-bost gan eich banc.




Efallai bydd angen i chi roi ychydig o ddogfennau gwahanol inni fel prawf.




Os rydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi o'r **Gronfa Ymateb Brys** fe fyddwn ni'n gofyn  i chi am ragor o wybodaeth am eich cyfrif.



Dydyn ni ddim yn gallu rhoi unrhyw arian i chi tan ein bod wedi edrych ar yr wybodaeth yma.



Dydyn ni ddim yn gallu talu arian i mewn i:

- cyfrif cymdeithas adeiladu gyda dim ond paslyfr.
- Cyfrif ar y cyd.



## Ydw i'n gallu mynd yn ôl at fy nghais ar-lein ar unrhyw amser?

Ydych. Rydych chi'n gallu mynd yn ôl at eich ffurflen gais ar unrhyw amser i'w gorffen.

# Am y Gronfa Ymateb Brys

## Faint o arian sydd yn y Gronfa Ymateb Brys?



Rydyn ni'n anelu at wario tua £300,000 ar y Gronfa Ymateb Brys a'r Gronfa Sefydlogi.



Dydyn ni ddim wedi penderfynu ar faint o arian y bydd pob cronfa yn ei gael. Fe fyddwn ni'n aros i weld faint o geisiadau rydyn ni'n eu cael.

## O lle mae'r arian yma wedi dod?



Rydyn ni'n defnyddio rhywfaint o'r arian rydyn ni wedi ei gael gan y llywodraeth ar gyfer ein gwaith. Ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhywfaint o arian ychwanegol inni.



Fe fyddwn ni'n stopio ein **rhaglenni Loteri cais agored-i-bawb** am 6 mis.



Fe fyddwn ni’n defnyddio’r arian o hwn ar gyfer ein **Cronfa Gwytnwch** yn lle hynny.



Fe fyddwn ni’n edrych ar y cynllun yma eto yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Fe fyddwn ni’n dweud wrthych chi pryd mae’r **rhaglenni Loteri cais agored-i-bawb** yn dechrau eto.

Mae Tŷ Cerdd a Llenyddiaeth Cymru yn rhoi rhywfaint o arian hefyd.




Rydyn ni’n siarad gyda chyrff eraill i weld os ydyn nhw eisiau rhoi arian hefyd.



Mae pobl yn gallu cael arian a chefnogaeth o leoedd eraill fel **cronfeydd caledi Undebau Llafur** a **Chymdeithasau Buddiannol.**

# Gwneud ein penderfyniad

## Sut fyddwch chi'n stopio llawer o bobl sydd ddim angen yr arian yma rhag gwneud cais?



Mae angen inni helpu pobl sydd mewn angen fwyaf.



Rydyn ni'n gofyn i bobl wneud cais dim ond os nad oes ganddyn nhw unrhyw ffordd arall o wneud arian ar yr amser yma.

Rydyn ni'n ymddiried yn y gymuned gelfyddydau i barchu ein crofneydd argyfwng.


## Oes yna unrhyw beth penodol rydych chi'n chwilio amdano i'ch helpu i benderfynu pwy sydd yn cael yr arian?



Dydych chi ddim yn gorfod cystadlu gydag artistiaid eraill i gael y gefnogaeth yma. Ac rydyn ni wedi ei gwneud yn hawdd i wneud cais am y gefngoaeth.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu gwneud cais os oes angen iddyn nhw wneud. Mae hyn yn meddwl pobl sydd yn fyddar neu yn anabl. A phobl o grwpiau **Du, Asiaidd neu grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig**.




Rydyn ni'n anelu at ddweud beth ydy ein penderfyniad o fewn 3 wythnos o'r dyddiadau cau.




Fe fyddwn ni yn dweud wrthych chi os nad ydy hyn yn bosibl am unrhyw reswm.



## Pryd fydda i'n cael yr arian?

Fe fyddwn ni'n rhoi';r arian i chi cyn gynted ag y byddwn ni'n cael ateb oddi wrthych chi,  ac ar ôl inni edrych ar eich manylion banc.



## Fydd yna fwy o gyfleoedd i wneud cais am yr arian yma?

Fe fydd 2 gyfle. Os ydych chi'n gwneud cais y tro cyntaf, dydych chi ddim yn gallu gwneud cais eto.



## Pam bod 2 gyfle i wneud cais?

Er mwyn rhoi cyfle teg ac amser i bawb i wneud cais.



## Ydw i'n gallu gwneud cais i'r Gronfa Sefydlogi, os ydw i wedi cael arian gan y Gronfa Ymateb?

Ydych




## Faint o geisiadau fydd yn llwyddiannus?

Rydyn ni'n gobeithio gallu cefnogi pob cais. Ond dydyn ni ddim yn gwybod yn iawn tan y byddwn ni yn gweld faint o bobl sydd yn gwneud cais.



## Ydych chi'n mynd i brintio enwau'r bobl sydd yn cael arian?

Ydyn. Rhaid inni brintio enwau a rhywfaint o wybodaeth am y bobl sydd wedi cael arian.

# Gwybodaeth a chefnogaeth

## Sut rydw i'n gallu cael cefnogaeth pan rydw i'n cadw pellter cymdeithasol neu yn hunanynysu?



Oherwydd rheolau Llywodraeth Cymru dydyn ni ddim yn gallu rhoi cefnogaeth wyneb yn wyneb i chi.



Fe fyddwn ni'n cefnogi gweithwyr gofal ac aelodau teulu drwy'r **Gronfa Cefnogaeth Mynediad**. Y peth gorau i'w wneud ydy cysylltu gyda ni yn: grantiau@celf.cymru.

## Ydw i'n gallu siarad gyda rhywun sydd yn gweithio i'r Cyngor Celfyddydau?



Oherwydd Coronafeirws, mae ein staff yn gweithio o gartref. Mae hyn yn gallu bod yn anodd ac mae llawer o'n staff yn ceisio gweithio ac edrych ar ôl eu teulu.




Felly dydyn ni ddim yn gallu rhoi cyngor 1 i 1 i chi am sut i wneud cais i'r **Gronfa Ymateb Brys**.




Rydyn ni wedi gwneud pethau mor hawdd â phosibl i wneud cais. Os oes gennych chi anghenion ychwanegol ac os ydych chi angen cefnogaeth rydych chi'n gallu cysylltu gyda ni yn grantiau@celf.cymru.

# Cyllid Loteri arall

## Mae gen i Grant Prosiect y Loteri Cenedlaethol. Ydw i'n gallu gwneud cais am yr arian yma hefyd?



Gwnewch gais os gwelwch yn dda 'r Gronfa Ymateb Brys dim ond os nad oes gennych chi digon  o arian i ateb eich anghenion.



Rydyn ni wedi cysylltu gyda phawb sydd yn cael **Grant Loteri** i ddweud wrthyn nhw beth i'w wneud.



Os ydych chi'n cael arian arall gan y Cyngor Celfyddydau ac os ydych chi eisiau gwneud cais i'r Gronfa Ymateb Brys, dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda pam nad ydy'r arian rydych chi'n ei gael yn ddigon

# Pryd fydd Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol yn dechrau eto?




Dydyn ni ddim yn gwybod eto. Mae'n debyg y bydd ein **rhaglenni cais agored-i-bawb** ar gau tan o gwmpas **Medi 2020**.



Rydyn ni'n gwybod bod **Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol** yn rhan pwysig o gynllunio i artistiaid a chyrff.




Fe fyddwn ni'n gwneud ein gorau i ddechrau **Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol** mor fuan â phosibl.

# Geiriau anodd

## Llawrydd

Gweithiwr llawrydd ydy rhywun sydd yn gweithio iddyn nhw eu hunain neu sydd yn cael eu talu gan gyrff i wneud rhai swyddi.

## Ar seibaint

Rydych chi ar seibiant pan rydych chi a'ch cyflogwr yn cytuno eich bod yn cymryd amser i ffwrdd oherwydd nad ydych chi'n gallu gwneud unrhyw waith. Rydych chi'n dal i gael y rhan fwyaf o'ch cyflog.

## Cyllido'n gyhoeddus

Mae cyllido'n gyhoeddus yn meddwl cael eich talu gan arian gan y cyhoedd. Mae'n gallu cael ei drefnu gan gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol.